**Datganiad Ôl-fabwysiadu**
**Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2025–2029**
*(Wedi'i baratoi yn unol â Rheoliad 16 o Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004)*

**1. Cyflwyniad**
Mae'r datganiad ôl-fabwysiadu hwn wedi'i baratoi yn dilyn mabwysiadu Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2025–2029. Mae'r datganiad yn bodloni gofynion Rheoliad 16 o Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 ac yn amlinellu'r modd y mae ystyriaethau cynaliadwyedd ac amgylcheddol wedi'u hintegreiddio i'r cynllun terfynol.

Mae'r Cynllun Partneriaeth yn nodi fframwaith ar gyfer y modd y bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid yn cydweithio i ofalu am y Parc Cenedlaethol dros y cyfnod 2025–2029, yn unol â'r dibenion a'r dyletswyddau statudol.

**2. Diben y Datganiad**
Mae'r datganiad hwn yn ymdrin â'r gofynion cyfreithiol canlynol:
- Y modd y mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hintegreiddio i'r Cynllun.
- Y modd y mae'r adroddiad amgylcheddol (yr Arfarniad o Gynaliadwyedd) wedi cael ei gymryd i ystyriaeth.
- Y modd y mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi cael eu hystyried.
- Y rhesymau dros ddewis y cynllun fel y'i mabwysiadwyd, yng ngoleuni dewisiadau amgen rhesymol.
- Y mesurau i'w cymryd i fonitro'r effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd.

**3. Y modd y mae'r ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd wedi'u hintegreiddio**
Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd - sy'n ymgorffori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol - wedi bod yn rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Partneriaeth.

Dechreuodd y broses o Arfarnu Cynaliadwyedd drwy baratoi Adroddiad Cwmpasu drafft, ac ymgynghorwyd â Cadw a Chyfoeth Naturiol Cymru i gael eu barn. Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd Arfarniad o Gynaliadwyedd drafft ac atodiadau cysylltiedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Defnyddiwyd amcanion cynaliadwyedd allweddol i asesu'r polisïau a'r camau gweithredu yn y Cynllun drafft, ac i glustnodi cyfleoedd i wneud y mwyaf o'r effeithiau cadarnhaol tra'n arbed neu'n lliniaru'r effeithiau negyddol.

Cynhaliwyd asesiadau ar yr un pryd â drafftio'r Cynllun, gan alluogi i argymhellion gael eu hymgorffori wrth i'r Cynllun esblygu.

**4. Y modd y cymerwyd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i ystyriaeth**
Roedd y drafft o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'i atodiadau ar gael yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus (2ail o Awst tan y 30ain o Fedi 2024). Hefyd roedd yr adborth i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi llywio'r Cynllun terfynol.

Roedd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi llywio'r penderfyniadau ynghylch mireinio camau gweithredu a'r meysydd ffocws, yn amlygu'r meysydd hynny lle'r oedd angen cryfhau iaith y polisi i'w wneud yn fwy eglur ac yn fwy effeithiol, ac yn ategu gwirio cysondeb ar draws yr asesiadau cysylltiedig (e.e. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg).

**5. Y modd y cymerwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad i ystyriaeth**

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ffurfiol o'r 2[ail] o Awst tan y 30[ain] o Fedi 2024, ac roedd yn cynnwys y dogfennau canlynol i'r cyhoedd a'r rhanddeiliaid gael golwg arnynt:

- Y Cynllun Partneriaeth Drafft a fersiwn Hawdd ei Ddarllen a ffurflenni ymateb.
- Yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Drafft ac asesiadau cysylltiedig (Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, a'r Asesiad Llesiant).
- Asesiadau cryno, mapiau rhyngweithiol, a dogfennau ymgynghori ategol.

Roedd adroddiad cryno o'r ymgynghoriadau wedi'i gynnwys yn Adroddiad Rhif 07/25 i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 26 Mawrth 2025.

Crynodeb o'r ymatebion i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd:

- Sylwadau cefnogol gan Cadw a gan Gyngor Sir Penfro.
- Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol wedi cyflwyno awgrymiadau manwl a defnyddiol o ran y ffeithiau diweddaraf, cywiriadau ac eglurhad.
- Ystyriwyd yr awgrymiadau hyn yn ofalus ac, yn y rhan fwyaf o achosion, fe'u mabwysiadwyd yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac yn y Cynllun terfynol.

**6. Y Rhesymau dros ddewis y Cynllun fel y'i mabwysiadwyd**

Mae'r Cynllun Partneriaeth (a elwid gynt yn 'gynllun rheoli') yn ofyniad statudol dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (adran 66), i lunio polisi ar gyfer rheoli'r Parc Cenedlaethol ac ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol mewn perthynas â'r Parc.

Felly, dylai'r Cynllun, yn ei hanfod, gyd-fynd â'r amcanion cynaliadwyedd. Mae'r swyddogion yn barnu bod proses Arfarniad o Gynaliadwyedd yn fodd ychwanegol o wirio ac o sicrhau bod y Cynllun yn ychwanegu gwerth ar draws yr amcanion cynaliadwyedd a rhwng yr amcanion hynny.

Mae'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ystyried dewisiadau amgen rhesymol i'r polisïau drafft, yn seiliedig ar eu perfformiad yn erbyn amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

Dewiswyd y Cynllun Partneriaeth a fabwysiadwyd am y rhesymau canlynol:

- Mae'n amlygu dibenion statudol y Parc Cenedlaethol ac yn cefnogi Egwyddor Sandford.
- Mae'n ymateb i'r materion cynaliadwyedd allweddol a glustnodwyd drwy ddadansoddi sylfaenol.
- Mae'n mynd i'r afael â blaenoriaethau'r rhanddeiliaid ac adborth yr ymgynghori.
- Mae'n fwy buddiol ar y cyfan yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn economaidd.
- Mae'n arbed effeithiau negyddol arwyddocaol ar gynefinoedd gwarchodedig neu asedau treftadaeth ddiwylliannol.

**7. Monitro**

Bydd monitro yn olrhain perfformiad y Cynllun Partneriaeth o ran y modd y caiff ei weithredu ac o ran cynaliadwyedd dros gyfnod y Cynllun.

Mae dangosyddion wedi'u cynnwys yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac yn y Cynllun ei hun. Mae'r metrigau yn fesurau ar gyflwr y Parc, effeithiolrwydd y polisïau, ac effaith rhaglenni.

**8. Y dogfennau sydd ar gael**

Mae'r dogfennau canlynol ar gael ar-lein yn:
Cynllun Partneriaeth 2025-2029 - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

01 Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2025-2029
02 Fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r Cynllun Partneriaeth
03 Arfarniad o Gynaliadwyedd (yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol)
04 Atodiad A – Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol
05 Atodiad B – Gwybodaeth Sylfaenol
06 Atodiad C – Asesiadau Polisi Manwl
07 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
08 Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg
09 Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb Cam 2
10 Asesiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cam 2
11 Datganiad ôl-fabwysiadu ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd
Tabl trosi ar gyfer Asesiadau Effaith